Richard Williams Griffiths

Ganwyd Richard Williams Griffiths yn Chwaen Wen Isaf, Llantrisant, ar Ynys Môn, tua 1832.

Bu'n ficer yn Llanfairisgaer a Llangadwaladr cyn cael ei apwyntio'n ficer Llandegai ym 1878.

Roedd ei dad, Edward Young Griffiths, yn feddyg ym Mangor ac yn byw ar un adeg yn Chwaen Wen Isaf, Llantrisant.

Roedd Richard Williams Griffiths yn byw yn Llwyn Onn, Llandegai.

Darganfuwyd ei fedd ym mynwent Llandygai, ar ôl iddo gael ei orchuddio am flynyddoedd gan goeden

Yn amlwg roedd Richard Williams Griffiths yn boblogaidd iawn, ac mae ffenestr liw o fewn yr eglwys yn Llandygai er coffadwriaeth iddo.